Rhagair

Y Gwir Anrh. Patricia Hewitt AS
Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach a Diwydiant

Yn ystod tymor diwethaf y Senedd, datblygodd y Llywodraeth hon lwyfan o sefydlogrwydd economaidd gyda chynnydd cadarn a sefydlog a chyda'r nifer uchaf o bobl erioed mewn cyflogaeth. Dechreuasom raglen bwysig o ddiwygiadau economaidd strwythurol, gan gynnwys Deddf Cystadleuaeth newydd a diwygiadau ansolfedd. Nawr yw'r amser i ddatblygu'r cyflawniadau hyn ymhellach. Rydym am gael economi flaengar i sicrhau mai'r DU yw'r lle gorau yn y byd i gynnal busnes.

Ar 18 Mehefin, cyhoeddodd y Canghellor a minnau ein bwriad i sicrhau mai menter a chynhyrchiant yw conglfaen diwygiadau economaidd y Llywodraeth yn ystod y tymor hwn yn y Senedd. Bydd hybu menter yn rhoi hwb i fusnes yn y DU ac yn gwella cynhyrchiant. Bydd ein Mesur Menter yn atgyfnerthu cystadleuaeth a phŵer defnyddwyr drwy ddiwygio cyfraith cystadleuaeth mewn ffordd radical, drwy drawsnewid ein hymagwedd tuag at fethdalu ac achubiaeth gorfforaethol a thrwy hyrwyddo dulliau diogelu newydd i ddefnyddwyr. Rydym yn credu y bydd hyrwyddo menter yn rhyddhau sgiliau entrepreneuraidd pobl Prydain.

Yn y Papur Gwyn hwn, rwyf yn nodi fy nghynigion o ran diwygio cyfraith ansolfedd. Ni ddylid caniatáu i gwmnïau sy'n profi anawsterau ariannol fynd i'r wal yn ddiangen. Mae llawer o bobl bellach yn ystyried bod y system o weinyddu cwmni dan law derbynnydd lle y bydd credydwr sicredig yn rheoli cyfeiriad a chanlyniad y weithdrefn yn hen ffasiwn. Mae llawer o fuddiannau pwysig eraill sy'n berthnasol i dynged cwmni o'r fath, gan gynnwys credydwyr ansicredig, cyfranddalwyr a chyflogeion. Rydym yn bwriadu creu gweithdrefn weinyddu wedi'i symleiddio a fydd yn sicrhau bod pob grŵp â budd yn cael chwarae teg ac yn cael cyfle i ddylanwadu ar y canlyniad. Fel rhan annatod o'r pecyn diwygio hwn, rydym yn bwriadu cael gwared ar hawliau arbennig y Goron o ran pob ansolfedd, sef cam a fydd yn dod â manteision mawr i fasnach a chredydwyr ansicredig eraill, gan gynnwys busnesau bach. Yn yr un modd, mae ein cynigion "Dechrau o'r Newydd" o ran methdaliadau personol yn seiliedig ar y ffaith ein bod yn cydnabod bod methiant gonest yn rhan annatod o economi marchnad ddeinamig. Bydd ein gwaith radical o lacio'r gyfundrefn methdalu yn golygu dechrau o'r newydd i lawer, wedi'i ategu gan gyfundrefn lem iawn ar gyfer y rheini sy'n trin eu materion ariannol mewn ffordd anghyfrifol neu ddiofal.

Drwy'r diwygiadau hyn, a mesurau pellgyrhaeddol eraill megis ein hadolygiad o gyfraith cwmnïau a'n gwaith i ddiwygio cyfraith cyflogaeth, byddwn yn sefydlu fframwaith busnes modern sydd â menter a chynhyrchiant wrth ei wraidd. Bydd yn atgyfnerthu busnesau yn y DU a'u helpu i fod ar flaen y gad yn y dyfodol drwy gystadleuaeth well a defnyddwyr cryfach.